



**urdd.org**  
Urdd Gobaith Cymru



**Ysgol Gymraeg Aberystwyth**



**Gwersyll yr Urdd  
Caerdydd**

Annwyl Rieni a Disgyblion Blynyddoedd 5 a 6,

16-01-2012

Fel y gwyddoch yn barod, mae'r ysgol yn cynnig taith breswyl bob blwyddyn er mwyn i ddisgyblion blynyddoedd 5 a 6 fwynhau'r profiad o fynychu un o wersylloedd yr Urdd.

Eleni, rydym wedi penderfynu dychwelyd i Gaerdydd gan ddilyn y patrwm o ymweld â Glan-llyn a Chaerdydd am-yn-ail flwyddyn.

Ymysg yr atyniadau yng Nghaerdydd y mae Canolfan y Mileniwm, Stadiwm y Mileniwm, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, San Ffagan, Techniquet, Castell Caerdydd, Y Pwll Mawr a lluo o weithgareddau eraill addysgol. Gyda'r nos cynnigir ymweliadau â'r sinema, bowlio deg, gweld sioe ayyb. Yn amlwg ni fyddwn yn medru mynychu'r cyfan oherwydd mai ond tridiau y byddwn yn ymweld â'r brifddinas, ond bydd y mwyafrif ar gael inni.

Y dyddiadau ar gyfer yr ymweliad yw **27—29 Mehefin 2012**.

Byddwn yn gadael yr ysgol ar fore dydd Mercher ac yn dychwelyd prynhawn dydd Gwener (amserau i'w cadarnhau). Bydd athrawon a staff ategol yr ysgol yn bresennol drwy gydol yr ymweliad.

Y pris arferol yw £148 y disgybl, ond trwy garedigrwydd y GRhA sy'n cyfrannu £10 y pen, y pris gostyngedig yw **£138** i bob plentyn. Mae hyn yn cynnwys:

- Cost y bws i Gaerdydd ac yn ôl
- Llety dwy noson gyda 3 phryd bwyd y dydd
- Gweithdy Celfyddydol
- Gweithgareddau megis taith o Ganolfan y Mileniwm, Stadiwm y Mileniwm, Pwll Mawr, Techniquet, Bowlio Deg, Sinema ayyb

Byddem yn gwerthfawrogi petaech yn medru talu'r blaendal o £30 a dychwelyd y slip isod i'r ysgol erbyn Chwefror 3ydd os gwelwch yn dda. Yna, er mwyn lleihau'r pwysau o dalu'r gweddill fel un swm o £108, rydym yn cynnig y gallwch dalu ychydig ar y tro os y dymunech, e.e talu £10 nawr ac yn y man, ond ichi roi'r arian mewn amlen dan sêl gydag enw eich plentyn a 'Gwersyll Caerdydd' yn glir ar yr amlen. Mae'n bwysig hefyd mai at Miss Ffion Jones yn y swyddfa yr anfonwch y taliadau, nid at yr athro/awes dosbarth. Dychwelwch y ffurflen isod a'r blaendal cyn gynted â phosib os gwelwch yn dda, heb fod yn hwyrach na **dydd Gwener 3ydd o Chwefror**. Dylid gwneud sieciau'n daladwy i 'Ysgol Gymraeg Aberystwyth'.

Gyda diolch,

**Gareth James**  
Dirprwy Bennaeth

I ddysgu mwy am y gwersyll ewch i  
**[www.urdd.org/caerdydd](http://www.urdd.org/caerdydd)**

## Taith breswyl i Wersyll yr Urdd Caerdydd 2012



Rhoddaf ganiatâd i fy mhlentyn ..... fynychu  
Gwersyll yr Urdd yng Nghaerdydd am dridiau o 27—29 Mehefin 2012.

Amgaeaf flaendal o £30

Llofnodwyd .....

Dyddiad .....





Dear Parents and Pupils in years 5 & 6,

16-01-2012

As you know, the school offers a residential visit every year for pupils in years 5 and 6 in one of the Urdd's residential camps.

This year we have decided to revisit Cardiff in order to continue with our bi-annual visits to Glan-llyn and Cardiff.

Among the activities offered are the Millennium Centre, Millennium Stadium, National Assembly for Wales, St Fagan's, Techniquet, Cardiff Castle, Big Pit and a number of other educational activities. During the evenings we will be ten pin bowling, visiting the cinema or seeing a show etc. Obviously it will be impossible to do everything during our three days' stay, but we will certainly enjoy most of them.

The dates for the residential visit will be **27—29 June 2012**.

We will leave the school Wednesday morning and return Friday afternoon (times to be confirmed)

The school's teachers and support staff will accompany the children throughout their stay.

The normal cost of the trip is £148 per pupil. However, the PTA are kindly donating £10 per pupil which brings the overall cost to parents to **£138** per child. This includes:

- A coach to Cardiff and back
- Two nights stay and three meals a day
- Arts Workshop
- Activities such as a tour of the Millennium Centre, Millennium Stadium, Big Pit, Techniquet, Ten pin bowling, Cinema etc

We would appreciate a deposit of £30 along with the slip below to be returned to school by 3rd February please. Also, to reduce the burden of paying the remaining £108 in one payment, you may pay in instalments ie. £10 every now and again when you have money to spare, as long as you present the money in an envelope clearly marked with your child's name and 'Cardiff Visit' to Miss Ffion Jones, not the class teacher. We would appreciate the deposit and slip to be returned as soon as possible but **no later than Friday 3rd February**. Cheques should be made payable to 'Ysgol Gymraeg Aberystwyth'.

Many thanks,

**Gareth James**  
Deputy Headteacher

To learn more about the centre visit  
[www.urdd.org/en/cardiff](http://www.urdd.org/en/cardiff)

### Cardiff Urdd Centre Residential Visit 2012



I give permission for my child ..... to attend the Urdd's Cardiff Residential Centre between 27—29 June 2012.

I enclose a deposit of £30

Signed .....

Date .....

